Cofnodion y cyfarfod blynyddol a cynhaliwyd ar 12fed o Fedi 2024

Presennol oedd Menai Hughes, Ffuon Williams, John Jones, Llio Morris, Dyfan Jones, Prys Ellis a Cyn Gwennol Ellis cafwyd ymddiheuriadau gan Einion Edwards.
Dewis swyddogion – Daeth Llio Morris ymlaen i fod yn Gadeirydd ac cafodd Dyfan Jones ei ethol fel is gadeirydd.
Diolchodd Llio i Prys Ellis am ei waith fel cadeirydd blaenorol.
Nid oed neb yn bresennol or gymuned felly aethbwyd ymlaen gyda'r agenda y noson.
Nid oedd neb wedi datgan diddordeb ir agenda.
Cofnodion balaenorol wedi ei trafod ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.
Gohebiaeth
[1] Toiledau Cyhoeddus – mae'r toiledau wedi cau ac nid y CBSC yn bwriadu eu hagor eto, felly cafwyd llythyr yn gofyn os fuasai y Cyngor Cymuned yn hoffi eu cymeryd drosodd – cytunwyd yn y cyfarfod ein bod am ei cymeryd gan bod yr arolwg diweddar a wnaethbwyd yn nodi glir mae dymuniad oedd i gael ail agor y toiledau, felly pasiwyd ir Clerc gysylltu a Mr Garry Williams i nodi ei bod gyda diddordeb eu gymeryd drosodd, ac i ddechrau y broses trosglwyddo drosodd.
[1.1] Scottish power anfoneb £27.63 mewn credid.
[1.2] Dwr Cymru - anfoneb £17.88 wedi talu DD.
[1.3] Haydn Roberts anfoneb £720.00 torri gwair (3 mis) yn fynwent Tyn Rhyd y llwybr ger Sarasens teiars a mynwent yr Eglwys. Pasiwyd iw dalu.
[1.4] Canolfan Addysg Uwchaled anfoneb am heirio y ganolfan adeg canlyniad yr arolwg £25.00 pasiwyd iw dalu.
[1.5] Snowdonia Fire anfoneb £48.00, pasiwyd iw dalu.
[1.6] D H Jones Ltd anfoneb am logi y 'chippar coed ' at waith yn y fynwent £392.20. pasiwyd iw dalu.
[1.7] Mathew Mcguffey - cafwyd llythyr yn gofyn os fuase aelod or teulu yn cael trin y fainc yn y cael chwarae sydd wedi ei rhoi er coff amdano.
[1.8] adolygu ffioedd claddu - ei gadael yr un brisiau.
[1.9] Adolygu ffioedd llogi yr Ystafell Blwyf - ei gadael yr un prisiau.
[2] Cyflog y Clerc yn cael ei dalu ar raddfa benodwyd gan NALC – wedi ei nodi.
[2.1] Creative Enterprise - £80 am logi yr Ystafell Plwyf.
[2.2] Clwb Peldroed - £20 am logi yr Ystafell Plwyf.
[2.3] CBSC taliad (astudiaeth Dichnoldeb) grant £1,242.20.
[2.4] CBSC taliad Precet (ail) £3,333.00
[2.5] Adroddiad y Cynghorydd Gwennol Ellis dywedodd bod y llyfrgell yn cael ei ail wneud i fynnu ac bod y llyfrau yn cael ei storio yn yr Ystafell plwyf tra bo gwaith yn cael ei wnueud roddwyd caniatad i hyn ddigwydd mewn cyfarfod blaenorol. Hefyd dywedodd bod ffordd Glasfryn i Cefn Brith yn cau gyda rheolaeth traffic dros dro ar 25 Medi tan 27 Medi.
[2.6] CBSC - daeth in sylw bod gwrych llwybr Maes aled angen ei dorri ac hefyd bod gwrych ger Trem Eryri angen ei dori sydd yn berchen y perchennog ty Trem Eryri.
[2.7] Diffub - cafwyd gwybod gan Tomos Hughes bod 'padiau a batries' wedi dod i ddiwedd ei cyfnod ac felly angen ei ail newid ar gost i ddod ir Cyngor Cymuned pasiwyd i dalu am rai i Cwmpenhanner a Pentrellyncymer.
[2.8] Giatiau Ysgol Cerrig – cafwyd pryder am fynediad ir gwasanaeth brys gael mynediad ir iard yr ysgol pan fydd y giat ar gau, pasiwyd ysgrifennu at y llywodraethwyr i gael gwybod a sichau bod posib agor y giat mewn argyfwng brys, tu allan i oriau ysgol.

[2.9]  Marc Roberts  cafwyd adroddiad gan Marc ar yr arolwg ac gan ei fod ddim yn bresennol pasiwyd ei adael tan y cyfarfod nesaf i drafod yr arolwg yn llawn.  Cafwyd anfoneb ganddo pasiwyd i geisio am yr arian o CBSC gyntaf cyn talu arian grant.  £2,484.38.

[3]  Rali Cambrian  dyddiad ymweliad ar ardal  26 Hydref 2024.

[3.1] Rheolau Sefydlog/ Standing Orders – wedi ei  nodi.

[3.2]  Urdd – cafwyd llythyr gofyn am gyfraniad i helpu gyda costau Rhanbarthol Conwy – pasiwyd iw adael.